Polisi Amgylcheddol Cadwyn Clwyd
Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013

Adran 1 – Cynaliadwyedd Amgylcheddol ar Lefel Prosiectau

1.1 Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan o gyrraedd targedau ehangach o safbwynt datblygu cynaliadwy. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddyletswydd, sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Llywodraeth Cymru, i hyrwyddo datblygu cynaliadwy heb aberthu'r amgylchedd. Bydd unrhyw gyllid drwy Gadwyn Clwyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol.

1.2 Mae'r ffordd o ymdrin â datblygu cynaliadwy ar draws y DU yn cydnabod pedwar maes blaenoriaeth allweddol:

- Newid hinsawdd ac ynni
- Defnyddio a chynhyrchu cynaliadwy
- Gwarchod adnoddau naturiol a gwella'r amgylchedd
- O'r lleol i'r byd-eang: creu cymunedau cynaliadwy

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i'r blaenoriaethau allweddol hyn, felly dylai prosiectau sy'n cael eu cyllido drwy Lywodraeth y Cynulliad geisio rhoi sylw i'r blaenoriaethau uchod.

1.3 Ar gyfer prosiectau, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi gwahanol lefelau o ran yr hyn y mae modd ei gyflawni o safbwynt cyrraedd targedau cynaliadwyedd amgylcheddol. Dyma grynodeb o'r tair lefel a nodwyd:

- Ar y lefel isaf, Lefel 1, mae'r prosiect yn creu ymwybyddiaeth o ganlyniadau amgylcheddol yr hyn sy'n cael ei gynnig.
- Ar yr ail lefel, Lefel 2, mae'r prosiect yn annog neu'n hyrwyddo gweithredu i roi sylw i gynaliadwyedd amgylcheddol.
- Ar y lefel uchaf, Lefel 3, mae'r prosiect yn gwireddu newid mesuradwy sy'n gwella'r amgylchedd neu'n cynyddu cynaliadwyedd.

1.4 Bydd holl brosiectau Cadwyn Clwyd o dan y Cynllun Datblygu Gwledig yn cyrraedd safonau gofynnol Lefel 1, a'r nod fydd i brosiectau mwy blaengar gyrraedd safonau Lefel 2 (dymunol), a Lefel 3 (delfrydol).

1.5 Bydd Cadwyn Clwyd yn mabwysiadu canllawiau Llywodraeth y Cynulliad o ran y math o weithgaredd o fewn prosiect a fyddai'n ei alluogi i gyrraedd y 3 lefel gyflawni wahanol yng nghyswllt pob blaenoriaeth amgylcheddol allweddol:

Blaenoriaeth Allweddol o ran cynaliadwyedd amgylcheddol	Lefel 1 Creu Ymwybyddiaeth	Lefel 2 Annog Gweithredu	Lefel 3 Gwireddu gwelliant gwirioneddol / newid o ran ymddygiad
1 Newid hinsawdd ac ynni	Creu ymwybyddiaeth o ddefnyddio ynni a newid hinsawdd	Mynd ati'n ymarferol i annog ymaddasu neu newid ymddygiad	Sicrhau gostyngiad mewn allyriadau, neu ymaddasu i newid hinsawdd
2. Defnyddio a chynhyrchu cynaliadwy	Creu ymwybyddiaeth o faterion defnyddio	Mynd ati'n ymarferol i annog cynnyrch newydd a llai o ddefnyddio	Sicrhau llai o ddefnyddio neu gynnyrch ecogyfeillgar
3. Gwarchod adnoddau naturiol/gwella'r amgylchedd	Creu ymwybyddiaeth o'r amgylchedd naturiol	Mynd ati'n ymarferol i annog rheoli cynaliadwy	Sicrhau gwelliannau amgylcheddol
4. Creu cymunedau cynaliadwy	Creu ymwybyddiaeth o faterion cymunedol lleol	Mynd ati'n ymarferol i annog busnesau a chymunedau lleol cynaliadwy	Grymuso pobl leol a chyflawni
I bob prosiect:	Safon ofynnol	Safon ddymunol	Safon ddelfrydol

1.6 Bydd adroddiadau ar brosiectau'n cael eu cyflwyno'n chwarterol i Grŵp Cynghori Technegol y Bartneriaeth a Bwrdd y Cyfarwyddwyr a byddant yn cael eu monitro yn erbyn y meini prawf uchod o safbwynt cynaliadwyedd amgylcheddol.

Adran 2 Cynaliadwyedd Amgylcheddol ar Lefel y Sefydliad

2.1 Mae Cadwyn Clwyd yn ceisio gwella'i berfformiad amgylcheddol yn barhaus drwy:

- **gynilo** ynni, dŵr, pren, papur ac adnoddau eraill – yn enwedig y rhai sy'n brin neu nad ydynt yn adnewyddadwy – ac ar yr un pryd ddarparu amgylchedd gwaith saff a chyfforddus;
- lleihau **gwastraff** drwy "leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu" a thrwy ddefnyddio cynnyrch a defnyddiau wedi'u hadnewyddu a'u hailgylchu lle mae dewisiadau amgen o'r fath ar gael;
- annog arferion i ostwng lefel yr allyriadau o gerbydau;

- annog **gweithgynhyrchwyr, cyflenwyr a chontractwyr** drwy fanylebau mwy caeth i ddatblygu nwyddau a gwasanaethau sy'n well i'r amgylchedd, am brisiau cystadleuol;
- sicrhau bod unrhyw **gynnyrch sy'n deillio o fywyd gwyllt** megis coed, planhigion a nwyddau lledr yn dod o ffynonellau cynaliadwy, a'u bod yn cydymffurfio â rheolau masnachu'r UE neu reolau masnachu rhyngwladol fel y Confensiwn ar Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau sydd Mewn Perygl (CITES);
- gweithio gyda **chontractwyr** i wella'r perfformiad amgylcheddol lle mae hynny'n berthnasol i'r contract ac i sicrhau gwerth am arian;
- sicrhau, lle mae hynny'n ymarferol, fod **adeiladau** a ddefnyddir gan Gadwyn Clwyd yn cael eu dylunio, eu hadeiladu a'u gweithredu er mwyn gwella'u perfformiad amgylcheddol;
- **addysgu, hyfforddi, a symbylu staff a chontractwyr** i weithio mewn ffordd sy'n gyfrifol yn amgylcheddol ac i chwarae rhan lawn yn datblygu syniadau a chynlluniau newydd; a
- **chyfathrebu'n** agored â'r staff am bolisïau amgylcheddol ac arferion gorau (yn cynnwys y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael) a **chydweithredu** ag eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat gartref a thramor i ddatblygu a hyrwyddo arferion sy'n gadarn yn amgylcheddol.

2.2 Bydd Cadwyn Clwyd yn gwarchod adnoddau naturiol ac yn lleihau llygredd drwy ymdrechu i gyflawni'r amcanion canlynol.

Cynilo adnoddau

(a) Ynni

gwella effeithlonrwydd ynni o fewn gweithgareddau Cadwyn Clwyd drwy hyrwyddo'r arferion gorau.

- prynu cyfarpar effeithlon o safbwynt ynni sy'n rhoi gwerth am arian;
- cyflwyno technegau a thechnolegau newydd i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon heb golli cynhyrchiant na chysur; a

(b) Gwastraff

lleihau'r gwastraff solid sy'n cael ei gynhyrchu o weithrediadau Cadwyn Clwyd drwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a gwella cynlluniau ailgylchu a sicrhau:

- yr ymdrinnir â phob gwastraff yn unol â'r gofynion cyfreithiol a'r arferion gorau;
- bod y staff i gyd yn cael eu hannog i "leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu".

(c) Dŵr

- monitro faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghadwyn Clwyd;
- defnyddio'r wybodaeth i ddatblygu meincnodau y gellir pennu targedau yn eu herbyn i leihau'r defnydd o ddŵr drwy ddilyn yr arferion gorau, lle mae dichon gwneud hynny, gosod dyfeisiau sy'n cyfyngu ar y llif, wrinalau di-ddŵr a thechnolegau mwy effeithlon lle mae gwneud hynny'n ymarferol ac economaidd; a, lle mae hynny'n briodol, pennu offer a chyfarpar sy'n defnyddio dŵr yn effeithlon.

(d) Pren

- prynu coed a chynnyrch coed (fel gwaith saer, ffitiadau, dodrefn ac argaenau) sydd wedi'u cynhyrchu'n gynaliadwy, gan bennu mewn archebion a chontractau fod gofyn i gyflenwyr ddarparu tystiolaeth ddogfennol (sydd wedi'i gwirio'n annibynnol, neu y mae modd ei gwirio'n annibynnol os bydd rhaid) fod y coed wedi cael eu darparu'n gyfreithlon o goedwigoedd a phlanhigfeydd sy'n cael eu rheoli er mwyn cynnal eu bioamrywiaeth, eu cynhyrchiant a'u bywyd, ac i atal niwed i ecosystemau eraill ac unrhyw bobl frodorol neu bobl sy'n ddibynnol ar y coedwigoedd.

(e) Papur

- defnyddio llai o bapur, e.e. drwy argraffu a chopïo ar y ddwy ochr a gwneud cymaint â phosibl o ddefnydd o dechnolegau amgen a chyfryngau electronig.

Lleihau llygredd

(f) Newid hinsawdd:

gostwng y lefelau allyriadau carbon deuocsid drwy:

- ddefnyddio llai o ynni yn adeiladau Cadwyn Clwyd *(gweler 5(a) uchod)*;
- annog arferion i leihau'r allyriadau o gerbydau;
- gostwng y lefelau allyriadau carbon deuocsid, carbon monocsid, cyfansoddion organig ffrwydrad ac ocsidiau nitrogen drwy leihau'r allyriadau o gerbydau (gweler 5(g) isod).

(g) Allyriadau o gerbydau:

- adolygu trefniadau teithio'r staff ac annog staff i ystyried ffyrdd o deithio a chyfathrebu sy'n creu llai o lygredd na cheir, megis cerdded, beicio, cludiant cyhoeddus, teleweithio a fideo-gynadledda.

(h) Sylweddau peryglus:

- parhau i annog pobl i beidio ag ysmygu drwy addysg a thrwy wahardd ysmygu ac eithrio mewn ardaloedd ysmygu dynodedig

  (i) Sylweddau bioddiraddadwy:

  defnyddio sylweddau cwbl ddiraddadwy fel pren, cardbord a phapur lle maent yn cynnig yr opsiwn amgylcheddol gorau a gwerth am arian.

  (j) Sbwriel

  cydymffurfio â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 drwy gadw safleoedd Cadwyn Clwyd yn glir o sbwriel o bob math – gan roi sylw i'r Cod Ymarfer statudol ar sbwriel.

  (k) Sŵn

  cydymffurfio â statudau, rheoliadau, is-ddeddfau a chodau ymarfer i gadw lefelau sŵn cyn ised ag sy'n ymarferol.

2.3 Caffael Nwyddau a Gwasanaethau

Mae caffael yn cael effaith amgylcheddol sylweddol iawn. Mae Cadwyn Clwyd felly wedi ymrwymo drwy ei bolisïau prynu i:

> fynnu bod pob pryniant yn cael ei wneud yn unol â'r datganiad polisi hwn, deddfwriaeth gyfredol a deddfwriaeth a ragwelir, a'i ganllawiau i gyflenwyr a phrynwyr a chanllawiau swyddogol eraill.